TAFLEN FFEITHIAU

CYNLLUN DISWYDDO GWIRFODDOL/YMDDEOLIAD CYNNAR I STAFF YN Y CYNLLUNIAU PENSIWN USS/AUS

Cyflwyniad

Amcan y daflen ffeithiau hon yw darparu manylion am gynlluniau diswyddo gwirfoddol ac ymddeoliad cynnar a allai fod o ddiddordeb i staff.

Mae'r daflen ffeithiau'n berthnasol i staff yn y Cynlluniau AUS/USS. Nid yw'r Cynllun yn berthnasol i Staff Etifeddol IBERS, a drosglwyddwyd o BBSRC dan drefniadau TUPE.

Gallai staff ddymuno mynegi diddordeb ac yna cyflwyno cais am daliad diswyddo gwirfoddol **neu** fuddion ymddeoliad cynnar er budd gweithrediad effeithlon swyddogaethau'r Brifysgol.

1. **Manylion y Cynllun**

(a) Bydd staff sy'n ymgeisio am ddiswyddiad gwirfoddol ac y caiff eu cais ei dderbyn yn derbyn y pecyn ariannol canlynol;

Un mis o gyflog am bob blwyddyn gyflawn o wasanaeth hyd at ddyddiad terfynu eu cyflogaeth, hyd at uchafswm o 12 mis o dâl

a

Thaliad sy'n cyfateb i'w cyfnod rhybudd.

(b) Bydd staff sydd yn 55 oed neu'n hŷn ac sydd ag o leiaf 5 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy yn yr USS, sy'n cyflwyno cais am ymddeoliad cynnar er budd gweithrediad effeithlon swyddogaethau'r Brifysgol, gyda chydsyniad y Brifysgol yn y rhan fwyaf o achosion yn derbyn pensiwn heb ei ostwng a chyfandaliad yn seiliedig ar eu gwasanaeth pensiynadwy hyd at ddyddiad terfynu eu cyflogaeth.

Gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau unigol, gallai staff sydd yn 55 oed neu'n hŷn sydd yn aelodau o Gynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth ac sy'n cyflwyno cais am ymddeoliad cynnar, fod â hawl i bensiwn heb ei ostwng yn seiliedig ar eu gwasanaeth pensiynadwy hyd at ddyddiad terfynu eu cyflogaeth.

Yn unol â rheolau'r AUPAS dylai staff nodi'r canlynol:

1. Mae ymddeoliad cyn y Dyddiad Pensiwn Arferol (pen-blwydd yn 65) yn ddarostyngedig i gydsyniad y Brifysgol (fel prif gyflogwr) - oni bai bod yr aelod wedi cyrraedd 60 oed ac wedi ymuno â'r Cynllun cyn 31 Gorffennaf 2003;

2. Os caiff cydsyniad ei roi gan y Brifysgol i'r pensiwn ymddeoliad cynnar (lle bo angen h.y. i bawb o dan 60 ac i'r rheini dros 60 a ymunodd ar ôl 31 Gorffennaf 2003), bydd y pensiwn a'r cyfandaliad yn agored i ostyngiad actiwaraidd oni bai ei f/bod yn "gadael wrth neu ar ôl cyrraedd 55 oed ar gais y Prif Gyflogwr ". Yn yr amgylchiadau hynny, ni cheir gostyngiad actiwaraidd;

3. Lle ceir gostyngiad actiwaraidd, i'r rheini sydd eisoes wedi cyrraedd 60 oed, bydd hyn yn gymwys i fuddion sydd i'w priodoli i wasanaeth ar ôl 31 Gorffennaf 2003 yn unig (h.y. ni chaiff y gwasanaeth cynnar ei ostwng os yw aelod wedi cyrraedd 60 oed).

2. **Proses**

(a) Gall staff gyflwyno mynegiad o ddiddordeb drwy ofyn i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol am fanylion y pecyn diswyddo gwirfoddol y byddent yn ei dderbyn **neu**, i'r staff hynny sy'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer ymddeoliad cynnar, drwy ofyn i'r Cyfarwyddwr Cyllid am amcangyfrif o'r buddion ymddeoliad cynnar y byddent yn eu derbyn. Mae mynegiad o ddiddordeb yn gyfrinachol ac nid yw'n arwydd o fwriad i ymgeisio am ddiswyddo gwirfoddol nac ymddeoliad cynnar.

(b) Caiff staff sy'n cyflwyno mynegiad o ddiddordeb eu cynghori i geisio cyngor ariannol annibynnol cyn gwneud unrhyw gais o dan y cynllun. Ni all y Brifysgol gynghori unigolion a ddylent wneud cais ai peidio.

(c) Dylai aelodau o staff sydd, ar ôl derbyn gwybodaeth am y buddion y byddent yn eu derbyn, yn dymuno ymgeisio naill ai am ddiswyddo gwirfoddol neu ymddeoliad cynnar, hysbysu'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.

(d) Bydd y Brifysgol yn ystyried yr holl geisiadau ond ni fydd yn cytuno i drefniant o'r fath oni bai bod modd dangos, ym marn y Brifysgol, ei fod yn amlwg er budd rheolaethol ac ariannol y Brifysgol.

(e) Bydd disgwyl i staff y derbynnir eu cais lofnodi cytundeb cyfaddawd sy'n cynnwys derbyn cyngor cyfreithiol annibynnol am fanylion y cytundeb. Bydd y Brifysgol yn cyfrannu £300 ynghyd â TAW at y costau cyfreithiol hynny.

SC/llh
Mawrth 2010

Troednodyn:

Mae'r pecyn hwn yn adlewyrchu safbwynt y Brifysgol ac nid yw'n gynnyrch ymgynghori â'r Undebau Llafur.